

CELF FEL GAIR... GAIR FEL CELF.... GAIR NEU GELF

Elf fel Air.. ayb ayb

Fframwaith i ddarlith.

Ga i ddweud yn y lle cyntaf, mo'd i yn gweld hwn fel cyfle i drafod Y GAIR, h.y casgliad o lythrenau sydd yn gwneud datganiad o un math neu gilydd.. fel Celf Weledol.. Nid trafodaeth o sut mae cyfieithu barddoniaeth i mewn i ddelwedd gweledol, llai byth, sut mae paentiadau yn darlunio cerddi geiriol yn esboniadol. Ffordd hir o ddweud 'illustration'. Nid trosiad, nid cyfieithiad o un ffurf i'r llall. Ond cyfanwaith, ble mae'r gair yn rhan o stwff craidd, deunydd, mater a sylwedd yr artist, ac ambell waith yr unig gynhyrch. Geiriau ar y wal. Dwi wedi trafod fy nefnydd i o eiriau ac ysgrifen fel awdur llyfrau celf, a thrafod cyd-weithio a beirdd eisoes yn Taliesin, felly wnai ddim ail-ymweld ar testyn hwna yn ormodol.

Cyfres o syniadau dwi am gyflwyno fellu.

Mae llawer o'r syniadau hyn yn dilyn wrth gwrs, o waith celf cydsyniadol (conceptual), ond hoffwn drafod gweithiau sydd yn ymylol i hyn hefyd, neu yn arwain ato.

Yn y cydestyn hwn, tynwyd ein sylw yn ddiweddar at farwolaeth Jaques Derrida, y damcaniethwr Ffrengig.. ac fod yn rhaid sylwi ar yr effaith gaeth ei ffordd o feddwl gael ar gelf a syniadau am iaith a geiriau a thestyn...yn y chwarter canrif a aeth heibio. I or symyleiddio yn erchrydus, credai nad oedd yn bosib meddwl na chreu ystyr heb iaith.. mae pob llun gweledol fellu yn ddibynnol ar iaith geiriau i greu ystyr iddo.. nid yw yn rhywbeth allanol.. does dim dihangfa o'r testyn. Ond ar yr un amser, mae iaith yn dywullodrus, rhaid ei dad-adeiladu i greu dealthwriaeth. A oes fellu unrhyw ffordd o ddirnad pethe yn go iawn. Mae artistiaid yn rhannu i ddwy garfan - y rhai sydd yn credu fod celf tu hwynt i eiriau, yn apelio i'r synwhurau drwy'r llygad heb ymyraeth y deallusol .. ar lleill sydd yn credu fod syniadau deallusol, sydd yn dod drwy iaith eiriol yn anatod i'r broses greadigol ac i werthfawrogiad ohonno.

- Llyfrau theori celf

Mae yna lyfr y darllenais er mwyn ymchwil o'r enw *Writing on the Wall*, mae'n agor efo'r dyfyniad hwn gan y Dadaist, Hugo Ball, *Mae'r gair a chelf yn un*. A dyna sut yr hoffwn drafod, ymdrin a'r ddwy elfen.. Gair a Delwedd, nid fel pethe arwahan, nid un yn drosiad o'r llall.

Medrem ddadle fod llawysgrifen yn ffurf o dynnu llun, gwneud marc sydd yn symbol o rhywbeth, yn creu ystyr. Fod un yn creu marc 'temporal' mae'n cymeryd amser i'w ddarllen, ar llall yn creu marc gofodol.. yn gwagle'r cynfas neu bapur neu awyr.

Efo cynnydd mawr mewn cyfryngau digidol, mae'n sicr fod rhai artistiaid yn gwneud safiad drwy greu drwy'r llaw mewn hen ffyrdd.. llaw ysgrifen yn mynd yn rhywbeth prin, rhywbeth i'w drysori.

Yn draddodiadol, mae i'r cyplysu o air a delwedd ryw hierarci. Mae un yn eilradd i'r llall.. y testyn geiriol yn esponio'r ddelwedd neu fel arall. Neu y gair (gan fardd) yn dehongli cynnwys y llun, (weithie yn ddigon llac).. fel yn arddangosfa'r Eisteddfod, neu yn y llyfr 'Darllen Delweddau' (Gwasg Carreg Gwalch).. neu fel arall rownd fel yn yr arddangosfa a chyhoeddiad a wnaed yn 1997 yn Oriel Plas Glyn-y-Weddw a oedd yn gofyn i artistiaid ddehongli gwaith R.S. Thomas.

Hoffwn edrych yn fwy ar syniadau sydd yn dilyn o waith y Cubist's a Dada, gweithiau aml-gyfrwng, ble mae'r artist yn cyplysu'r ddwy elfen a chael gwared o'r hierarchaeth rhyngddynt, yn creu gweithiau 'hybrid' ambell waith, neu gweithiau sydd, yn y dull damcaniaethol, yn cynnwys syniad yn unig wedi ei roi mewn gair. Duchamp ddechreuodd y trend i radde' r'oedd eisiau symyd celf oddiwrth gwerthfawrogiad synhwyrol yn dibynnu ar y llygad yn unig.. a'i osod yng ngwasanaeth y meddwl. Dilyniant hyn yw cael gwared o'r gwrthrych celf yn gyfangwbwl.

Enghraifft... Robert Barry artist Americanaidd yn oriel Art and Project, Amsterdam yn 1969.

Santiago Sierra yn Biennale Fenis diwetha'

Ond mae'n amlwg nad peth newydd neu annaturiol yw cyplysu gair a delwedd.. fe ddaeth hyn yn amlwg i mi pan yn meddwl am y ddarlith yma, ac yn digwydd sylwi ar waith Iona, fy merch bump oed..

- Llun Iona

I blentyn er enghraifft does dim ffin, mae geiriau a lluniau yn mynd gyda'i gilydd yn hawdd iawn.. wedi ei helpu gan lyfrau stori plant, ac nid plant yn unig sydd yn mwynhau comics

- Comics

dawn yn ol at hyn yn y fan.

Mae amryw ddull iw gweld yn y ffyrdd mae artistiaid yn trafod y testyn. Yn gyntaf CELF neu GAIR

Onibai ein bod yn edrych ar lyfrau fel Kells, sydd fel comics i raddau

- Book of Kells

Byddai rhaid cyfadde bod celf weledol wedi datblygu annibyniaeth oddiwrth y gair.. yn draddodiadol.. 'A picture paints a thousand words' fu hi. D'oedd dim angen geiriau i gyfleu beth ddyle llun neu gerflun ei gyfleu ar un edrychiad. (Er, rhaid cyfadde fod y teitl wastad wedi bod yn bwysig, ond dyna pam y bu i artistiaid yn y ganrif ddiwetha ddechre defnyddio pethe fel 'Untitled no1' neu 'Blue 1' ayb...)

- Durer ayb
- Blake.. i'r gwrthwyneb
- Gair fel Celf.. Ogwyn Davies, Tim Davies, David Jones, Bethan Huws

Ble mae'r gair yn cael ei ddefnyddio fel elfen addurniadol yn ogystal a damcaniaethol.

- Celf/gair fel iaith Damcaniaethol.. Art&Language, seinbost ayb
- Gair mewn Celf... Gwleidyddol (David Garner), gweithiau o wledydd lleiafrifol ayb.
- Raymond Pettibon
- Celf am y Gair. Cerith Wyn Evans, gemau geiriol Bedwyr Williams, 'A Short History of Painting', Paul Beauchamp.

Beth yw canlyniad hyn i gyd?

Fod hi yn amhosib dirnad unrhyw ffin, na unrhyw ddiffiniad pendant rhwng gair a celf weledol.. un o'r adnoddau y medr artist ei ddefnyddio yw geiriau - nid yw yn farddoniaeth nac yn lenyddiaeth -yr unig beth pwysig, yr unig wahaniaeth ydyw mai artist ac nid llenor sydd yn ei greu, ac orherwydd, mae'r weithred yn wahannol, mae'r bwriad yn wahannol.

Fe ddof yn y diwedd glo i drafod fy ngwaith fy hun, a rhywbeth dwi'n meddwl amdano r'wan fel Nodiadau Maes.. neu teitl sydd yn fy mhen at arddangosfa CARTA FRAGMENTADA yn cyfuno delwedd (Map) efo geiriau (enwau llefydd ayb).

- Sleidiau fi.

Casgliad o feddyliau, syniadau mewn dwy, tair, pedair iaith efallai, delwedd graffeg, paentiad, creiriau a geiriau (Cymraeg, Saesneg a Sbaeneg). Cymraeg am ei fod yn gyfrin efallai, Sbaeneg gan ei fod yn gyfrin i mi er fy mod mewn cariad ar swm ar diwylliant. Mae o hefyd yn cyfleu tiroedd estron, egstotig efallai.

Yr oll wedi ei osod ar un cynfas (yn llythrennol weithie!) pob peth yn gweithio fel fragments sydd yn ceisio cyfleu rhywbeth, mewn ffordd dorredig. Maen't yn gweithio fel diagram, thesis, hieroglyphs, siart neu lythyr neu map. Ynghyd wrth y rhain mae geiriau eraill yn cropio mewn, fel geiriau Mererid a sgwennodd i ddarn arall o waith.. neu pytiau o Sbaeneg dywediadau sydd yn cael eu hesbonio i mi *'Tu, tu a tu aires' "Terra Ultima" ayb*

Mae'r edrychydd yn gorfod bod yn ddarllenydd hefyd. Dau broses ar unwaith.

Darllen Pellach; 'Imaging the Imagination' Christine Kinsey a Ceridwen Lloyd-Morgan (Gomer 17 Mai 2005)